Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Gwir Anrh Rhun ap Iorwerth AS
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru

Drwy e-bost - Gohebiaeth.Prif.Weinidog@llyw.cymru

20 Hydref 2026

Annwyl Brif Weinidog,

Mae ymgymryd â swydd Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn fraint arbennig. Fodd bynnag, am resymau personol, rwyf wedi penderfynu ymddiswyddo o'm swydd fel Comisiynydd y Gymraeg, yn weithredol ar unwaith.

Wrth edrych yn ôl dros y pedair blynedd diwethaf, rwy'n falch fy mod wedi gallu gwireddu llawer o'r weledigaeth a oedd gennyf wrth gael fy mhenodi, sef sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng rheoleiddio cadarn a chynnig cefnogaeth ac arweiniad ymarferol, gan weithio gyda sefydliadau i'w galluogi i wneud y peth iawn dros y Gymraeg yn y lle cyntaf.

Un o'r datblygiadau pwysicaf yn hynny o beth fu sefydlu rhaglen hyrwyddo cydymffurfiaeth, gyda channoedd o swyddogion cyhoeddus yn mynychu sesiynau i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd.

Rwyf hefyd yn falch ein bod wedi llwyddo i ddod â mwy o sefydliadau o dan y gyfundrefn safonau yn ystod y cyfnod diwethaf. Rwyf wedi rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar y camau pellach y credaf y dylid eu cymryd, gan fy mod yn grediniol bod dod â mwy o sefydliadau o dan Safonau'r Gymraeg yn cynnig cyfle gwirioneddol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Rwy'n edrych ymlaen yn benodol at weld Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei hymrwymiad i gyflwyno safonau i sectorau newydd o dan Fesur y Gymraeg, gan gynnwys banciau, archfarchnadoedd a meysydd parcio preifat yn ystod tymor y Senedd hwn. Mae hynny, yn fy marn i, yn gam hollbwysig ac arwyddocaol ymlaen, gan greu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r gwasanaethau a'r busnesau y maent yn ymwneud â nhw yn eu bywydau bob dydd.

Comisiynydd y Gymraeg
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae rhannu profiad Cymru a dysgu oddi wrth eraill yn rhyngwladol hefyd wedi bod yn rhan bwysig o'm gwaith. Cefais y fraint o gadeirio Cymdeithas Rhyngwladol y Comisiynwyr Iaith ar ddechrau fy nghyfnod fel Comisiynydd, ac rwyf wedi gwerthfawrogi'r cyfleoedd i rannu profiadau a llwyddiannau Cymru ag eraill. Yn yr un modd, mae arbenigedd y sefydliad ym maes enwau lleoedd wedi ein galluogi i ddatblygu gwaith pwysig i helpu i ddiogelu'r rhan werthfawr hon o'n treftadaeth ieithyddol.


Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wedi bod yn flaenoriaeth benodol i mi. Rwy'n arbennig o falch o'r gwaith rwyf wedi'i sefydlu i helpu sefydliadau i ddatblygu'r cyfleoedd sydd ar gael mewn gweithleoedd ledled Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Mae'r gwaith hwnnw eisoes yn dechrau dwyn ffrwyth, ac rwyf wedi rhoi cyngor i chi ar sut y gellir adeiladu arno ymhellach yn y dyfodol. Ni fydd modd i'r gwaith yma gyrraedd ei lawn botensial heb roi adnoddau digonol i ddatblygu'r cynlluniau.

Yn ogystal â hynny, rwy'n falch ein bod wedi gallu dod â phobl ac arbenigedd ynghyd i drafod dyfodol y Gymraeg, gan gynnwys drwy gynadleddau arwyddocaol ar y Gymraeg yn y gweithle ac ar botensial Strategaethau Hybu fel arf i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i aelodau fy Mhanel Cynghori a'm Pwyllgor Archwilio a Risg am eu cyngor a'u cefnogaeth drwy gydol fy nghyfnod yn y swydd. Yn fwy na dim, hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr yn swyddfa'r Comisiynydd. Eu hymrwymiad a'u harbenigedd hwy sydd wedi galluogi'r sefydliad i ddatblygu ei waith yn sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf ac i wireddu'r uchelgeisiau a osodwyd yn ein cynllun strategol. Mae gennyf bob hyder y bydd y gwaith pwysig hwnnw'n parhau.

Fel y nodais yn fy adroddiad 5-mlynedd, Cyfle ein Cenhedlaeth, ni allwn barhau i weithredu yn yr un ffordd a disgwyl canlyniadau gwahanol. Wrth imi gamu o'r swydd felly, edrychaf ymlaen at weld Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar yr ymrwymiadau a wnaed i'r Gymraeg yn ystod tymor y Senedd hwn, ac at weld y Gymraeg yn parhau i gryfhau fel iaith sy'n cael ei defnyddio'n naturiol ym mhob rhan o fywyd Cymru.

Yr eiddoch yn gywir,



Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Rt Hon Rhun ap Iorwerth MS
First Minister of Wales
Welsh Government

Via e-mail - Correspondence.First.Minister@gov.wales

20 October 2026

Dear First Minister,

It has been a particular privilege to serve as the Welsh Language Commissioner. However, for personal reasons, I have decided to resign from my position as Welsh Language Commissioner, with immediate effect.

Looking back over the past four years, I am proud to have been able to realise much of the vision I had when I was appointed: to strike the right balance between robust regulation and the provision of practical support and guidance, working with organisations to enable them to do the right thing for the Welsh language in the first instance.

One of the most important developments in this regard has been the establishment of a programme to promote compliance, with hundreds of officers attending sessions to develop their understanding of how to provide high-quality Welsh-language services.

I am also pleased that we have succeeded in bringing more public organisations within the Welsh language standards system during this period. I have provided Welsh Ministers with advice on the further steps that I believe should be taken, as I firmly believe that bringing more organisations within the Welsh language standards system provides a genuine opportunity to increase the use of Welsh.

I am particularly looking forward to seeing the Welsh Government deliver on its commitment to introduce standards for new sectors under the Welsh Language Measure, including banks, supermarkets and private car parks, during this Senedd term. In my view, this represents an important and significant step forward, creating more opportunities for people to use Welsh with the services and businesses they engage with in their everyday lives.

Sharing Wales's experience internationally, and learning from others, has also been an important part of my work. I had the privilege of chairing the International Association of Language Commissioners at the beginning of my term as Commissioner, and I have valued the opportunities to share Wales's experiences and successes with others. Similarly, the organisation's expertise in the field of place names has enabled us to develop important work to help safeguard this valuable part of our linguistic heritage.

Increasing the use of Welsh has been a particular priority for me. I am especially proud of the work I have established to help organisations develop opportunities for people to use Welsh on a daily basis in workplaces across Wales. That work is already beginning to bear fruit, and I have advised you on how it can be built upon further in the future. This work will

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner


not be able to reach its full potential without sufficient resources being made available to develop these plans.

In addition, I am proud that we have been able to bring people and expertise together to discuss the future of the Welsh language, including through significant conferences on Welsh in the workplace and on the potential of Promotion Strategies as a means of increasing the use of Welsh in our communities.

I would like to express my sincere thanks to the members of my Advisory Panel and my Audit and Risk Committee for their advice and support throughout my time in office. Above all, I would like to thank my colleagues in the Commissioner's office. It is their commitment and expertise that have enabled the organisation to develop its work significantly over the past four years and to realise the ambitions set out in our strategic plan. I have every confidence that this important work will continue.

As I noted in my five-year report, Our time to act, we cannot continue to work in the same way and expect different outcomes. As I step down from the role, therefore, I look forward to seeing the Welsh Government act on the commitments it has made to the Welsh language during this Senedd term, and to seeing Welsh continue to grow stronger as a language that is used naturally in every aspect of life in Wales.

Yours sincerely,



Efa Gruffudd Jones
Welsh Language Commissioner